OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 1424

# Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) 2001

## RHAN II

## SWYDDOGAETHAU DISGYBLU Y CYNGOR

**Sefydlu Pwyllgorau Ymddygiad Proffesiynol**

**5.**—(1) Rhaid i'r Cyngor sefydlu un neu ragor o bwyllgorau i'w galw'n Bwyllgorau Ymddygiad Proffesiynol er mwyn cyflawni'r swyddogaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2).

(2) Swyddogaethau Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol yw—

(a) penderfynu ar achosion a gyfeirir atynt gan Bwyllgor Ymchwilio pan oedd yn ymddangos i'r Pwyllgor Ymchwilio bod gan yr athro neu'r athrawes gofrestredig achos i'w ateb—

(i) mewn perthynas ag ymddygiad proffesiynol annerbyniol neu gollfarn am dramgwydd perthnasol, neu

(ii) mewn perthynas ag ymddygiad proffesiynol annerbyniol neu gollfarn am dramgwydd perthnasol a hefyd mewn perthynas ag anghymhwysedd proffesiynol difrifol;

(b) pan fydd Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol yn dyfarnu bod athro neu athrawes—

(i) yn euog o ymddygiad proffesiynol annerbyniol neu eu bod wedi'u collfarnu o dramgwydd perthnasol, neu

(ii) yn euog o ymddygiad proffesiynol annerbyniol neu eu bod wedi'u collfarnu o dramgwydd perthnasol, a hefyd yn euog o anghymhwysedd proffesiynol difrifol,

ystyried a ddylid gwneud gorchymyn disgyblu mewn perthynas â'r athro hwnnw neu'r athrawes honno ac, os ydynt o'r farn y dylid gwneud gorchymyn o'r fath, gwneud gorchymyn o'r fath; ac

(c) penderfynu ar geisiadau o dan reoliad 20 neu 22 neu ar faterion sy'n codi mewn perthynas â gorchmynion disgyblu o dan reoliad 21 neu 23.